Rhif: WG54119

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Pennu ffi'r drwydded gocos ar gyfer cyfnod trwyddedu 2026 - 2027

Crynodeb o’r ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-058-9

## 1. Cefndir

Cyflwynodd Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 ('y Gorchymyn') gyfundrefn drwyddedu a rheoli newydd, lle mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru godi ffi am drwyddedau cocos sy'n adlewyrchu'r gost o redeg y bysgodfa.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig yr isod:

Cynyddu'r ffi flynyddol am drwydded gocos o £350 i £600 i adennill costau cymwys. Mae hyn yn cynnwys costau a ysgwyddir a gwariant sy'n deillio o:

- reoli'r gwelyau cocos,
- arolygon gwyddonol neu asesiadau amgylcheddol sy’n ymwneud â’r gwelyau cocos,
- gweinyddu ceisiadau am drwyddedau,
- dadansoddiad o ddalfeydd dyddiol, ac unrhyw wariant perthnasol arall.

Nid yw costau sy'n gysylltiedig â gorfodi'r bysgodfa yn cael eu hystyried wrth bennu ffi'r drwydded.

## 2. Y cyfnod ymgynghori

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 26 Ionawr 2026 a daeth i ben ar 9 Chwefror 2026, ac fe'i rhannwyd â rhanddeiliaid hysbys, gan gynnwys proseswyr a 217 o ddeiliaid trwyddedau cocos, drwy e-bost a thrwy dudalen we ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.
Roedd yr ymatebwyr yn gallu ymateb drwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

## 3. Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a aeth ati i fynegi eu barn ac ymateb i'r ymgynghoriad; mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried cyn cyflwyno'r mesurau.

Daeth **19** o ymatebion i law gan unigolion sydd â buddiant yn y diwydiant cocos yng Nghymru.

Cafodd yr ymatebion eu grwpio a'u crynhoi yn ôl barn yr ymatebwyr ar y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd trwydded, fel y nodir isod:

- Roedd **74%** yn anghytuno â chynyddu ffi'r drwydded o £350 i £600.
- Mynegodd **26%** eu bod yn cytuno'n amodol, yn bennaf ar y sail y dylid gwella gorfodi'r bysgodfa.

Roedd y rhesymeg a ddarparwyd gan ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd trwydded yn cynnwys yr isod:

- Roedd **68%** yn teimlo na ddylai fod cynnydd oherwydd pryderon nad yw'r bysgodfa yn cael ei gorfodi'n effeithiol ar hyn o bryd.

- Dywedodd **42%** y byddai'r cynnydd arfaethedig yn creu baich ariannol na ellir ei fforddio.
- Dywedodd **16%** y byddai'r cynnydd arfaethedig yn ormod ac y dylid ei gyflwyno'n fwy graddol dros amser.
- Dywedodd **16%** na ddylai fod cynnydd oherwydd pwysau costau byw cynyddol.

Grwpiwyd adborth arall gan ymatebwyr i'r categorïau isod:

- Roedd 37% yn gwrthwynebu casglwyr ar droed.
- Roedd 37% yn teimlo na ddylid cymhwyso terfyn dalfa dyddiol.
- Roedd 32% o'r farn y gallai'r cynnydd mewn ffioedd trwydded arwain at gynnydd mewn gweithgarwch anghyfreithlon o fewn y bysgodfa.
- Roedd 26% o'r farn y dylai casglwyr ar droed dalu ffioedd uwch na pherchnogion llongau.
- Cododd 21% bryderon am sut mae'r pysgodfeydd yn cael eu rheoli.
- Hoffai 16% weld gwell mynediad i'r pysgodfeydd.
- Mynegodd 16% bryderon am ansicrwydd ynghylch cyfnodau agor gwelyau.
- Mynegodd 16% bryder am longau sy'n cael eu gorlwytho â chocos.

## 4. Crynodeb

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cais am sylwadau ar y cynnydd mewn ffioedd trwydded a gyflwynwyd ar gyfer cyfnod trwyddedu cocos 2026/2027.

Ar ôl ystyried ymatebion yr ymgynghoriad yn ofalus, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y newid canlynol i'r cyfnod trwydded gocos rhwng 1 Mehefin 2026 a 31 Mai 2027:

- **Cynyddu ffi'r drwydded o £350 i £600.**

## 5. Sail

Mae'r penderfyniad i gynyddu ffi'r drwydded yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

- Mae'r cynnydd yn adlewyrchu costau rheoli'r bysgodfa, heb gynnwys gwaith gorfodi.

- Bydd y cynnydd yn sicrhau bod oddeutu 71% o'r costau cysylltiedig o reoli'r bysgodfa yn cael eu hadennill. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu tua 29% o gostau 2026/27.

- Mae trwydded gocos yn darparu mynediad i bysgodfa o fewn yr ardal benodol, ac o ystyried yr incwm tymhorol posibl y gall ei gynhyrchu. Mae ffi ddiwygiedig y drwydded yn gymharol isel o’i chymharu â’r incwm tymhorol posibl o gasglu cocos yn yr ardal benodedig.

Er nad yw'n gysylltiedig â'r cynnydd yn ffi'r drwydded, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella effeithlonrwydd rheoli a gorfodi pysgodfeydd cocos yn 2026/27.

### 6. Y camau nesaf

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau a ddaeth i law. Bydd y cynnydd i ffi'r drwydded yn cael ei gymhwyso i'r cyfnod trwydded gocos rhwng 1 Mehefin 2026 a 31 Mai 2027.

### 7. Y Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras a Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais ynghyd â chopïau mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: fisheries@gov.wales

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.